YSGOL EIFIONYDD PORTHMADOG

Crynodeb Estyn
Estyn Summary
2018

`Mae Ysgol Eifionydd yn gymuned ofalgar sydd yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr i'w disgyblion. Mae ganddi ethos cynhwysol a chadarnhaol sydd yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus.'

Yn ystod wythons olaf Ebrill/dechrau Mai croeshawyd Estyn i Ysgol Eifionydd er mwyn iddynt gael cwrdd â disgyblion, staff a rhieni tra'n cael y cyfle i weld ein gwersi a'n gweithgareddau all-gwricwlaidd.

Ers i mi ymuno â'r ysgol fel dirprwy ac ers i mi gael fy mhenodi'n Bennaeth yn 2016 'rydym wedi cyflwyno prosesau a gweithdrefnau i gefnogi a datblygu'n disgyblion i fod yn ddisgyblion dwyieithog hyderus sy'n cyrraedd y safonau uchaf posib trwy ymdrech parhaus, cydweithio a pharch at eraill. 'Rwyf yn falch o ddweud bod yr adroddiad yn gadarnhaol am y datblygiadau yma.

'Rydym yn falch iawn o'n disgyblion a braf yw darllen barn Estyn eu bod yn `ymddwyn yn dda ac yn barchus at eu hathrawon, ymwelwyr a'u cyfoedion'.

Yn ystod yr arolwg 'roedd Estyn yn edrych ar bump maes allweddol sydd wedi eu crynhoi yn y ddogfen yma:

1. Safonau
2. Lles ac agweddau at ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Wrth symud ymlaen byddwn yn parhau i weithredu'r Cynllun Gwella Ysgol ac yn rhannu'r cynllun yma gydag Estyn wrth iddynt adolygu cynnydd yr ysgol. Byddwn yn parhau i wella a chanolbwyntio ar yr agweddau hynny lle'r ydym yn ymwybodol bod datblygiad pellach ei angen.

Hoffwn ddiolch i'r disgyblion a'r staff am eu gwaith caled wrth i ni barhau i fynd YMLAEN AT RAGORIAETH!
Dewi Rhys Bowen
Pennaeth

`Ysgol Eifionydd is a caring community that provides its pupils with valuable support and guidance. It has an inclusive and positive ethos that promotes pupils' health and wellbeing successfully.'

During the last week of April/first week of May we welcomed Estyn to Ysgol Eifionydd so that they could meet with pupils, staff and parents whilst also having the opportunity to see our lessons and extra-curriculur activitities.

Since joining the school as a deputy and since being appointed as Headteacher in 2016 we have introduced processes and procedures to ensure that as a school we support and develop our pupils to be bilingual pupils that can confidently achieve the highest possible standards through continuous effort, co-operation and respect for others. I am pleased to say the report we have received is positive about these developments.

We are very proud of our pupils and it is pleasing to read Estyn's opinion that they 'behave well and treat their teachers, visitors and peers with respect'.

During the inspection Estyn reviewed the school in five key areas, which are summarized for you in this document:

1. Standards
2. Wellbeing and attitudes to learning
3. Teaching and learning experiences
4. Care, support and guidance
5. Leadership and management

Moving forward we will continue to implement the School Improvement Plan and share the plan with Estyn as they review the school's progress. We will continue to improvd and concentrate on those aspects where we aware extra development is required.

I would like to thank pupils and staff for their hard work as we continue to go FORWARD TOWARDS EXCELLENCE!
Dewi Rhys Bowen
Headteacher

1.Safonau

Nodwyd y canlynol gan Estyn:

- Yn gyffredinol, gwna'r mwyafrif o ddisgyblion gynnydd gwerthfawr yn eu dealltwriaeth a'u medrau pynciol.
- Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn gywir ac yn adeiladu ar hwn yn fuddiol. Maent yn gwrando'n astud a pharchus ar yr athro ac ar gyfraniadau gan ddisgyblion eraill.
- Mae medrau llafar cryf gan lawer o ddisgyblion. Maent yn cyfleu eu safbwyntiau yn glir wrth drafod eu syniadau mewn grwpiau neu barau.
- Mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus. Maent yn distyllu gwybodaeth berthnasol o ffynonellau amrywiol yn llwyddiannus ac yn dadansoddi testunau yn effeithiol, gan ddod i gasgliadau synhwyrol.
- Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig i ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd. Mae disgyblion uwch eu gallu yn ysgrifennu darnau estynedig cryf sy'n dadansoddi ystod o safbwyntiau cyferbyniol.
- Ceir enghreifftiau cyson o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol ar draws ystod o bynciau.

Mewn ymateb i argymhellion Estyn byddwn fel ysgol yn parhau i ganolbwyntio ar berfformiad a chanlyniadau cyson gan pob disgybl ar draws yr ysgol.

1.Standards

Estyn noted the following:

- Overall, a majority of pupils make valuable progress in their subject understanding and skills.
- In many lessons, pupils recall previous learning correctly and build on this beneficially. They listen attentively and respectfully to the teacher and to other pupils' contributions.
- Many pupils have strong oral skills. They convey their views clearly when discussing their ideas in groups or pairs.
- Many pupils are confident readers. They distil relevant information from various sources successfully and analyse texts effectively, and come to sensible conclusion.
- A majority of pupils write at length for a wide range of purposes and audiences. More able pupils write strong extended pieces that analyse a range of contrasting views.
- There are frequent examples of pupils developing their creative skills across a range of subjects.

In response to Estyn's recommendations we will continue to concentrate on consistent performance and results from all pupils across the school.

2. Lles ac agweddau at ddysgu

Nodwyd y canlynol gan Estyn:

- Mae lles disgyblion yn agwedd gref o fywyd Ysgol Eifionydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, ac yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb i'w pryderon a'r achosion prin iawn o fwlio.
- Mae barn y disgyblion yn chwarae rhan flaenllaw yng ngwaith yr ysgol ac yn cyfrannu'n werthfawr tuag at benderfyniadau.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yn glir bwysigrwydd bwyta'n iach.
- Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith ac yn dyfalbarhau â'u tasgau.

Mewn ymateb i argymhellion Estyn byddwn fel ysgol yn parhau weithio gyda disgyblion i sicrhau eu bod eu lles a'u agweddau yn parhau'n bositif.

2. Wellbeing and attitudes to learning

Estyn noted the following:

- Pupils' wellbeing is a strong aspect of the life of Ysgol Eifionydd. Nearly all pupils feel safe and are confident that the school responds to their concerns and the very rare cases of bullying.
- Pupils' views play a prominent part in the school's work and make a valuable contribution towards decisions.
- Most pupils understand clearly the importance of eating healthily.
- Many pupils show a positive attitude towards their work and perseverance with their tasks.

In response to Estyn's recommendations we will continue working with pupils to ensure their well-being and attitudes remain positive.



3. Addysgu a phrofiadau dysgu

Nodwyd y canlynol gan Estyn:

- Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthynas waith gadarnhaol gyda'r disgyblion ac maent yn rheoli amgylchfyd y dosbarth yn effeithiol. Mae llawer yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn, yn cyfathrebu'n eglur ac yn fodelau iaith da iawn.
- Yn y mwyafrif o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn paratoi adnoddau symbylus.
- Mae'r mwyafrif o athrawon yn cynnig adborth buddiol sy'n rhoi arweiniad effeithiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith. Maent yn cynnig cyngor doeth a sensitive i ddisgyblion a thargedau pwrpasol i sicrhau gwelliant.
- Mae arweinwyr yr ysgol yn ystyried dyheadau'r disgyblion yn ofalus wrth gynllunio'r cwricwlwm.
- Mae arlwy eang o brofiadau allgyrsiol i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.
- Llwydda'r ysgol i gynnig profiadau gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mewn ymateb i argymhellion Estyn byddwn fel ysgol yn parhau i ganolbwyntio ar rannu'r arferion gorau o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau dysgu ac addysgu o'r ansawdd uchaf.

3. Teaching and learning experiences

Estyn noted the following:

- Most teachers have a positive working relationship with pupils and manage the classroom environment effectively. Many have sound subject knowledge, communicate clearly and are very good language models.
- In a majority of lessons, teachers have high expectations of pupils and prepare stimulating resources.
- A majority of teachers provide beneficial feedback that provides pupils with effective guidance on how to improve their work. They provide pupils with wise and sensitive advice and purposeful targets to ensure improvement.
- The school's leaders consider pupils' aspirations carefully when planning the curriculum.
- There is a broad range of extra-curricular activities to enrich pupils' learning experiences.
- The school succeeds in providing valuable experiences to develop pupils' literacy skills across the curriculum.

In response to Estyn's recommendations we will continue to focus on sharing best practice within the school in order to ensure teaching and learning of the highest quality.

4. Gofal, cymorth ac arweiniad

Nodwyd y canlynol gan Estyn:

- Mae Ysgol Eifionydd yn gymuned ofalgar sydd yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr i'w disgyblion. Mae ganddi ethos cynhwysol a chadarnhaol sydd yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae gan yr ysgol strategaethau a gweithdrefnau cadarn er mwyn olrhain, monitro a hyrwyddo presenoldeb a lles.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol. Gwneir defnydd da o staff ategol i ddarparu cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion hyn.
- Mae'r disgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau personol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol niferus.
- Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu ffitrwydd a'u dealltwriaeth o sut i fyw a chadw'n iach.
- Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn gynhwysfawr ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.
- Mae gan yr ysgol rhaglen gynhwysfawr o gyfleoedd a gweithgareddau perthnasol sy'n paratoi disgyblion yn drwyadl ar gyfer y byd gwaith neu'r cam nesaf yn eu bywydau.
- Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni, megis trwy'r cylchlythyr 'Min y Traeth' a chyfryngau cymdeithasol.

Mewn ymateb i argymhellion Estyn byddwn fel ysgol yn parhau i weithio gyda disgyblion i sicrhau eu bod eu bod yn derbyn y gofal, cefnogaeth ac arweiniad y meant ei angen.

4. Care, support and guidance

Estyn noted the following:

- Ysgol Eifionydd is a caring community that provides its pupils with valuable support and guidance. It has an inclusive and positive ethos that promotes pupils' health and wellbeing successfully.
- The school has robust strategies and procedures in order to track, monitor and promote attendance and wellbeing.
- Provision for pupils with additional learning needs is appropriate. Good use is made of support staff to provide effective support for these pupils.
- Pupils benefit from valuable opportunities to develop their personal skills by taking part in numerous extra-curricular activities and clubs.
- The school provides valuable opportunities for pupils to improve their fitness and their understanding of how to live healthily and stay healthy.
- The personal and social education programme is comprehensive and contributes effectively to pupils' spiritual, moral, social and cultural development.
- The school has a comprehensive programme of relevant opportunities and activities that prepare pupils very thoroughly for the world of work or the next step in their lives.
- The school communicates effectively with parents.

In response to Estyn's recommendations we will continue working with pupils to ensure that they receive the care, support and guidance they require.

5. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Nodwyd y canlynol gan Estyn:

- Mae'r Pennaeth, gyda chefnogaeth yr uwch dîm rheoli, wedi sefydlu gweledigaeth glir ac maent yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd, a'r staff, i wireddu'r weledigaeth hon.
- Maent yn hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol yn eu gwaith bob dydd ac yn datblygu cydweithredu amlwg rhwng rheolwyr a'r staff.
- Dros y dair blynedd diwethaf, mae arweinyddiaeth gadarn a chynllunio ar gyfer gwella effeithiol wedi cyfrannu tuag at wella cyfraddau presenoldeb.
- Mae cyfrifoldebau'r uwch dîm Rheoli wedi eu dosrannu'n addas ac yn glir i'r holl staff. Mae trefniadaeth a strwythurau llinellau atebolrwydd hefyd yn glir.
- Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i fywyd yr ysgol.
- Trwy brosesau hunan arfarnu defnyddiol, mae'r ysgol yn casglu tystiolaeth uniongyrchol ynghylch ansawdd y dysgu a'r addysgu.
- Mae'r cynllun gwella ysgol-gyfan yn adeiladu'n briodol ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu.
- Mae gan y mwyafrif o'r rheolwyr canol ddealltwriaeth addas o safonau yn eu hadrannau.
- Mae'r ysgol yn darparu amryw o weithgareddau priodol i gefnogi dysgu proffesiynol staff.
- Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol ac mae bron pob athro'n dysgu o fewn eu harbenigedd.

Mewn ymateb i argymhellion Estyn byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant i gefnogi datblygiad staff fel arweinwyr.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar safwe Estyn.

5. Leadership and management

Estyn noted the following:

- The headteacher, with the support of the senior management team, has established a clear vision, and they work closely with each other and the staff to realise this vision. They promote professional values and conduct in their day-to-day work, and develop clear co-operation between managers and staff.
- Over the last three years, robust leadership and effective planning for improvement have contributed towards improving attendance rates.
- The responsibilities of the senior management team have been distributed suitably and are clear to all staff.
- Governors are very supportive and make valuable contributions to school life.
- Through useful self-evaluation processes, the school gathers first-hand evidence of the quality of learning and teaching.
- The whole-school improvement plan builds appropriately on the findings of the self-evaluation processes.
- A majority of middle managers have a suitable understanding of standards in their departments.
- The school provides a variety of appropriate activities to support staff's professional learning.
- The school is staffed appropriately and nearly all teachers teach within their specialisms.

In response to Estyn's recommendations we will focus on providing training to support staff's leadership development.

The full report is available on Estyn's website.